# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

## DYDD LLUN, 4YDD MEHEFIN, 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Davies [Aelod o’r Bwrdd Gweithredol].

**Roedd y swyddog canlynol yn bresennol:**
Mrs M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 1.00 p.m. – 1.05 p.m.**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaeth i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiad[au) |
|---|---|
| **Teilo Sant**<br>(2 le gwag – 1 enwebiad) | Mr O. James |
| **Y Bedol**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr C. Williams |
| **Ysgol Uwchradd** | **Penodiad[au)** |
| **Ffederasiwn Bryngwyn a Glanymôr**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Giles Morgan |

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23AIN MAWRTH, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 23 Mawrth 2018, gan ei fod yn gywir.**

AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD